**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Carl Sargeant AC
Y Gweinidog Tai ac Adfywio
Llywodraeth Cymru
Llawr 5
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

13 Mawrth 2014

Annwyl Weinidog

**CLA362 – Rheoliadau Tribiwnlysoedd Prisio Lesddaliadau (Ffioedd) (Cymru) (Diwygio) 2014**

Trafododd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yr Offeryn Statudol uchod yn ei gyfarfod ar 3 Mawrth 2014.

Er ein bod yn fodlon ar yr offeryn, fe welwch o'n hadroddiad (sydd ynghlwm) fod gennym bryderon ynghylch ei gyd-destun. Roedd yn ofynnol gwneud newidiadau i'r fersiwn Gymraeg o'r prif reoliadau yn sgîl diwygiadau i'r fersiwn Saesneg gan *Reoliadau Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (Darpariaethau Canlyniadol) (Rhif 3) 2008*. Roedd Rheoliadau 2008 i fod i wneud newidiadau canlyniadol i naw set o reoliadau Cymru, ond testun y Saesneg yn unig a newidiwyd. Yn achos y Rheoliadau presennol, mae anghysondeb felly rhwng testun y Gymraeg a thestun y Saesneg ers dros bum mlynedd.

Mae'r Pwyllgor felly yn ceisio sicrwydd gan Lywodraeth Cymru bod camau wedi cael eu cymryd i wneud testun y Gymraeg yn gyson â thestun y Saesneg yn y rheoliadau eraill a ddiwygiwyd yn y Saesneg yn unig gan Reoliadau 2008.

Nodwn fod y Nodyn Esboniadol yn cyfeirio at y mater penodol y cyfeirir ato uchod, ond byddem wedi disgwyl gweld sylwadau ynghylch rheoliad 2(4)(c)

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8019
E-bost / E-mail: ruth.hatton@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg / We welcome correspondence in both English and Welsh

yn y Memorandwm Esboniadol, o bosibl o dan yr adran 'Materion o Ddiddordeb Arbennig i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol'.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb i'r pwyntiau a godwyd gennym yn y llythyr hwn.

Yn gywir



**David Melding AC**
**Cadeirydd**